

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**  
**7:30YH 27<sup>AIN</sup> HYDREF 2021**  
**YN FESTRI PANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: R. Emlyn Williams (REW), Ann Vaughan (AV), Gwynfor Davies (GD), Diane Roberts (DR), Gwydion Jones (GJ), Gwyn Williams (GW) & Mark Davies (MD)

**1.3** Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL) ac Einir Williams (EW)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

GJ ynglyn a 6.3 & 6.5

**3 GŴR GWADD – RUSSEL JONES O DŴR CYMRU**

Croesawodd CR Russell Jones (RJ) i'r cyfarfod. Trafododd y problemau sydd wedi bod dros y misoedd diwethaf a beth mae Dŵr Cymru wedi bod yn wneud i geisio datrys yn yr ardal a'r cynlluniau dros y misoedd nesaf i wella ymhellach.

Cynghorwyr yn cael cyfle i holi cwestiynau a chodi problemau yn eu hardaloedd.

**4 COFNODION I'W GWIRO 22<sup>AIN</sup> MEDI 2021**

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan REW.

**5 MATERION YN CODI**

6.2 REW wedi gyrru llythyr i David Jones ac wedi cael ymateb. REW am yrru hwn ymlaen i'r Cynghorwyr eraill drwy ebost.

7.5 Cywiro coeden yn Llangernyw, dim Gwytherin. Trafodaeth fod angen gwaith i dorri canghenau. Trafodaeth os oedd angen caniatad i'w torri, angen clirio canghenau. REW yn nodi fydd angen torri rhai canghenau hefyd i dacluso. Penderfynwyd gofyn i Kevin Roberts os yw'n gallu ymgymryd â'r gwaith. CR am gysylltu efo Kevin Roberts ynglyn â hyn.

7.1 AV yn gofyn os yw EW wedi prynu gliniadur – neb yn gwybod yn absennoldeb EW.

7.2 AV yn gofyn os oedd Steven a Annette Lockier wedi derbyn llythyr, CR heb gael cyfle eto ond am ofalu.

7.2 AV yn adrodd fod yr arwyddion ar y gweill.

DR yn codi gor-yrru drwy'r pentref yn yr ardal 20mya eto. Wedi ysgrifennu at y Cyngor, wedi cael ateb nad yw'n cael paentio 20mya ar y ffordd. Neb wedi gweld Gan Bwyll yn y pentref. AV yn gofyn os yw'r Cyngor am brynu'r arwyddion fflachio yn y pentref. Wedi bod yn trafod efo Berwyn Evans ac wedi cael gwybod fod posibl cael rhai wedi eu pweru gan solar.

DR yn gofyn os yw'r Cyngor wedi cysylltu efo'r contractwyr lleol, CR yn adrodd ei fod wedi ysgrifennu atynt.

AV yn gofyn os oedd modd cael croesfan bwrpasol ger Parc Aelas.

11. DR - tŷ newydd ger Hafodunos. Wedi bod yn siarad efo trigolion lleol oedranus ac wedi cael cadarnhad fod adeilad wedi bod yno erystalwm, dim anedd. Mae'n debyg fod y tŷ yn cael ei godi ar hyn o bryd. Trafodaeth y buasai unrhyw anedd wedi ei nodi ar hen fapiau ac yn y Census. DR am yrru gohebiaeth ar ebost i CR. Angen gwneud ymholiadau ynglyn â'r llwybr cyhoeddus hefyd.

**6 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 6.1** 0/48922: dim sylw, cymeradwyo.
- 6.2** 0/48962: dim sylw, cymeradwyo.
- 6.3** 0/49021: \*GJ yn gadael y cyfarfod dros dro\* mater wedi ei basio o'r blaen. DR yn gofyn os oedd caniatad gan yr MOD wedi ei gael gan fod hwn wedi ei gael y tro diwethaf. CR am roi sylw ynglyn â hyn ar yr ymateb. DR yn atal pleidlais. Cymeradwyo.
- 6.4** 0/49024: cadw llygad os oes goleuadau yn cael eu codi. Cymeradwyo.
- 6.5** 0/49027: dim sylw, cymeradwyo.

\*GJ yn ail ymuno â'r cyfarfod

\*GW yn gadael y cyfarfod.

## **7 MATERION ARIANNOL**

Adroddiad Ariannol: Diolchwyd i DR am baratoi'r adroddiad ariannol, CR wedi ei yrru i bawb o flaen y cyfarfod. Cynghorwyr wedi gweld y ffigyrau ac yn eu cymeradwyo.

AV yn gofyn os oedd modd cael cyfarfod i wneud cais am y grant. AV, DR & GD i drefnu rhwng eu gilydd.

## **8 MATERION Y CYNGOR**

- 8.1** CR yn codi fod llawer o waith angen ei wneud yn lleol yn dilyn cwynion yn ddiweddar. Kevin Roberts wedi gwneud y gwaith a dwy anfoneb wedi ei derbyn: llwybr Hafodunos: £1,287.60; llwybrau eraill: £787.20. Pawb yn hapus efo'r ddwy anfoneb, CR am basio'r ddau ymlaen i'r Cyngor Sir i wneud cais am daliad. GD yn gofyn beth yw'r diweddaraf am lwybr Pen y Bryn gan fod pobl yn mynd ar hyd y llwybr ac yn mynd oddi ar y llwybr dynodedig. Dim arwyddion fod y llwybr wedi cau oherwydd fod yr afon wedi difrodi'r llwybr. Mater yn nwylo'r Cyngor Sir. CR am gysylltu efo'r Cyngor Sir i ofyn am arwyddion yn dweud fod y llwybr ar gau oherwydd diogelwch.
- 8.2** REW yn codi fod popeth, gan cynnwys gwaith papur, wedi cael ei adael yn y Ficerdy yn cynnwys dogfennau personol y cyn-drigolion, adroddiad GLL yn trafod hyn hefyd. Mater yn nwylo'r Cyngor Sir. Angen diogelu'r safle. CR am gysylltu efo GLL i wneud ymholiadau ynglyn â hyn.
- 8.3** REW yn trafod fod GLL wedi bod yn delio efo'r mater yma.
- 8.4** DR wedi mynychu cyfarfod diweddar efo Un Llais. Staff yn gwirfoddoli efo siop symudol i fynd o amgylch y tai. Hefyd mynd a slow cooker o amgylch ac yn dysgu sut i wneud pryd o fwyd eu hunain a sut i ddefnyddio oergell. Codi hefyd y mater fod angen i glercod gael cymhwysterau. Wedi siarad efo Mel (swyddog ardal) sydd wedi cynnig dod i siarad efo'r Cyngor am y mater hwn. DR am drefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.
- 8.5** Trefnu siaradwr gwâdd ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr. AV yn gofyn os oedd modd codi'r mater o'r awyrenau sydd yn yr ardal yn ddiweddar.

## **9 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Wedi ei dderbyn yn absenoldeb GLL (aeth CR drwy'r prif bwyntiau yn ystod y cyfarfod):

"Materion Lleol:

Er bod y gwaith ar y Bont Faen yn mynd rhagddo yn dda, mae peth oedi wedi bod dros y bythefnos ddiwethaf. Mae'r gwaith adfer, fel sawl maes arall wedi diodde yn sgil y trafferthion yn y gadwyn gyflenwi a roedd cyflenwad o ddur yn hwyr yn cyrraedd, yn ogystal ag offer arbenigol oedd ei angen i weithio o dan fwa'r bont.

Yn dilyn cais gan rai o fusnesau'r pentref, rydw'i wedi trefnu bod arwyddion ychwanegol wedi eu gosod ar y ffordd i mewn i Langernyw o Lansannan, yn nodi fod busnesau yn agored fel arfer, er bod trafnidiaeth yn cael ei ddargyfeirio oddiwrth y pentref dros dro.

Yn dilyn sawl cwyn am gyflwr peryglus adeilad a safle'r Hen Ficerdy, rydw'i wedi cael sicrwydd y bydd y rhannau hynny o'r adeilad â ddifrodwyd yn y tân yn cael eu dymchwel dan Orchymyn Gorfodaeth y Cyngor Sir a'u gwneud yn ddiogel, a bod rhwystrau a rhybuddion yn cael eu gosod ger y fynedfa.

Mae llawer o gwyno wedi bod am swm awyrennau'r Awyrlu yn ymarfer yn yr ardal – a'r cwynion yn bennaf am yr awyrennau bychan Texan 'propellor' yn hytrach na'r awyrennau Hawks 'jet' sydd wedi bod o gwmpas ers blynyddoedd lawer. Ar y cyfan, mae'r Texans yn hedfan yn îs, ac yn aros yn yr ardal am gyfnodwy hwy – a felly yn creu mwy o 'niwsans' i'r trigolion. Rydw'i wedi cysylltu â'r Awyrlu Brenhinol yn y Fali, a bellach wedi cael atebion ganddyn nhw, a chopi o ateb gafodd yr Aelod Seneddol Hywel Williams (oedd wedi codi'r mater yn y Senedd) gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r ohebiaeth yn egluro fod yr RAF yn ymwybodol o'r broblem ond yn ceisio'u gorau i leihau'r effaith ar gymunedau drwy amrywio ardaloedd ymarfer ac ymarfer mwy dros y mor. Serch hynny, mae nhw hefyd yn pwysleisio fod yn rhaid i beilotiaid gael ymarfer cyson dros dir a bod hynny'n rhan allweddol o'u hyfforddiant.

Mae trafferthion cysylltedd band-lydan yn dal i achosi problemau i drigolion a busnesau yn ardal Pandy (fel mewn sawl ardal arall). Rydw'i wedi cysylltu ag Openreach i ofyn beth yw'r amserlen a'r cynllun gwaith er mwyn ymestyn cysylltedd Ffeibr i'r pentref – ac yn disgwyl ateb. Yn y cyfamser, rydw'i wedi gofyn i swyddogion o'r Cyngor Sir baratoi adroddiad am fater cysylltedd yn yr ardal, i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Fforwm Leol Ardal y De, fydd yn cyfarfod cyn hir. Efallai y bydd hynny yn rhoi gwell trosolwg i mi o'r darlun cyflawn, a chael edrych ar opsiynau eraill yn hytrach nag Openreach os yn bosib.

I aros yn Pandy, trefnwyd ymweliad safle gan ddau o swyddogion afonydd a llifogydd y Cyngor Sir, i ddod i weld difrod i'r dorlan y tu ol i Deras Glandwr. Mae'r afon wedi erydu'r dorlan yn sylweddol gan effeithio ar erddi'r tai. Rydw'i bellach wedi cael adroddiad manwl gan y swyddogion, yn nodi maint y difrod, ond yn pwysleisio hefyd mai mater i berchnogion y tir (y gerddi) fydd atgyweirio a chryfhau'r dorlan, dan arolygaeth y Cyngor Sir. Y cam nesaf fydd i'r trigolion gael amcanbris am wneud y gwaith a phenderfynu wedi hynny ar y ffordd ymlaen. Mae'r Cyngor hefyd wedi cysylltu â Dwr Cymru i nodi fod peth difrod i sylfaen y bibell ddwr sy'n croesi'r afon yn yr un lleoliad a bod disgwyl i Ddwr Cymru ei atgyweirio.

Roedd yn bleser mynychu cyfarfod cyhoeddus yng Ngwytherin nos Wener y 15fed o Hydref a gweld nifer dda o bobl leol wedi ymgynnull i drafod y camau nesaf o ran adnewyddu a gwella adnoddau'r Ganolfan Gymunedol a'r tŷ cysylltiol. Mae criw gweithgar wedi bod wrthi ers peth amser yn trefnu cynlluniau, amcan brisiau a pharatoi ceisiadau grant, a roedd yn gam pwysig ymlaen i ymgynghori hefo trigolion y pentref a'r ardal gyfagos. Mae'r Ganolfan a'r tŷ yn adnodd gwych i'r ardal gyfan a dwi'n wir obeithio y bydd yr ymdrechion i sicrhau cyllid digonol i wneud y gwaith adfer yn llwyddo.

Ac wrth gerdded o'r car i'r Ganolfan, gwych oedd gweld bod y gwaith adfer a gwella'r cae chwarae yng Ngwytherin wedi dechrau. Rai misoedd yn ôl, fe wnaeth Einir, Emlyn a finnuau gyfarfod swyddog Caeau Chwarae'r Cyngor Sir ar y safle ac fe ddaeth yn amlwg fod materion Iechyd a Diogelwch o ran y ffens a peth o'r offer. Fe lwyddom ni i gael addewid o fuddsoddiad yn

y ffens a giatiau ac addewid pellach cyn hir am offer chwarae newydd hefyd. Da gweld bod y gwaith wedi dechrau!

Un mater yng Ngwytherin sydd heb ei ddatrys yw problem y bws ysgol a chysgodfan i ddisgyblion ysgol. Unwaith eto, fe ddaeth un o swyddogion y Cyngor Sir i gyfarfod Einir, Emlyn a finnau yn y pentre i drafod opsiynau posib o ran creu lle i'r bws ygol ddod i ganol y pentre. Hyd yma, dyw'r Cyngor ddim wedi cynnig unrhyw ddatrysiad, a rydw'i wedi cysylltu eto wythnos yma yn gofyn am ymateb.

Mae gweithwyr Adran y Priffyrdd wedi bod yn brysur iawn dros y misodd a'r wythnosau dwetha er gwaetha pwysau a chyfyngiada Covid – yn trwsio ffyrdd, llenwi tyllau, gosod wyneb newydd, a thrwsio arwyddion, ac mae llawer o'n ffyrdd ni mewn cyflwr llawer gwell rwan na'r hyn oedda nhw rai misoedd yn ol. Da gweld bod y gwaith torri gwrychoedd yn mynd rhagddo hefyd.

Mae mater y Fferm Wynt arfaethedig yn dal i fod yn bwnc trafod mawr yn yr ardal. Fe wnaeth Ifor Lloyd (cynghorydd Llanfair TH/Betws yn Rhos) a finnau gyfarfod criw sylweddol o drigolion ardal Moelfre rhyw fis yn ôl i drafod eu pryderon am y datblygiad. Mae eu pryderon yn seiliedig ar faint y safle, uchder y twrbeini, ardrawiad gweledol a swm a hefyd cwestiynau am y broses o ran ymgynghori a pholisiau Llywodraeth Cymru. Rydw'i wedi trefnu bod cynrychiolwyr cwmni Bute Energy yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ym mis Tachwedd er mwyn i gynghorwyr a thrigolion gael cyfle i holi, a herio, gwrthwynebu neu gefnogi ar ddechrau proses ymgynghorol fydd yn cymryd tua blwyddyn. Mae hwn yn fater dadleuol iawn a chryfderau a gwendidau i'r ddadl o blaid ac yn erbyn ffermydd gwynt a solar, felly mae'n bwysig iawn i'r gymuned leisio barn a bod yn rhan allweddol o'r broses ymgynghori dros y misoedd nesaf.

#### Materion y Cyngor Sir:

Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn dal yn rhithiol er bod cynlluniau ar y gweill i ddechrau cynnal cyfarfodydd 'hybridr' sef rhai aelodau yn y siambr, a rhai yn ymuno yn rhithiol. Rydw'i wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd pwyllgorau Craffu Addysg fel is-Gadeirydd a chyfarfodydd y Pwyllgor Corfforaethol ac Archwilio fel aelod cyffredin.

Mae'r maes Addysg a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn arbennig o heriol i swyddogion a staff dros y deunaw mis diwethaf ac mae'n wyrthiol bod y gwasanaethau hynny wedi llwyddo – ac yn parhau i lwyddo – i gynnal eu darpariaeth i drethdalwyr a phobl sy'n ddiabyddol ar y gwasanaethau hynny.

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 21ain o Hydref, fe wnaeth Iwan Davies y Prif Weithredwr dynnu sylw at lofruddiaeth yr Aelod Seneddol Syr David Amess, ac atgoffa pawb am ddiogelwch aelodau sy'n ymwneud â'r broses ddemocrataidd – cyfarfodydd cyhoeddus, cymorthfeydd, cysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol ayb , ond roedd pawb yn gytun hefyd pa mor bwysig ydi cynnal y cysylltiad personol hynny er gwaetha'r bygythiadau.

Yn y maes Addysg, y blaenoriaethau ar hyn o bryd yw cynnal y gwasanaeth drwy'r cyfnod Covid, ac yna i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'n Gwricwlwm blaengar ac arloesol ac o fudd mawr i'n plant a'n bobl ifanc. Rydw'i hefyd yn aelod o grwp Llywio sy'n gofalu am gyflwyno a darparu Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg yn y Sir – ac mae Cyngor Conwy yn un o'r Siroedd mwyaf blaengar yn y maes yma. Rydw'i hefyd yn aelod o dîm sy'n gyfrifol am gyflwyno cynllun Datblygu'r Gymraeg yn y Sir – cynllun fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y cartref, y gymuned, y gweithle a'r ysgol.

Mae'n amhosib osgoi son am y pandemig – ryda ni gynghorwyr yn cael adroddiadau cyson, ac yn ôl adroddiadau mae'r ystadegau yn dangos bod achosion yn y Sir yn lleihau yn raddol, ond bod angen gofal a chadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran pellter, gwisgo mygydau a hylendid. Mae'r sefyllfa yn ein hysgolion yn anodd, a dwi'n cydymdeimlo yn enfawr hefo'n dysgwyr ifanc a staff ysgolion wrth iddyn nhw geisio rhyw fath o 'normalrwydd' dros y cyfnod heriol yma.

I gloi ar nodyn personol – rydw'i wedi penderfynu peidio sefyll eto yn etholiadau nesaf y Cyngor Sir fis Mai 2022. Mae sawl rheswm - ond yn bennaf, a heb fod yn rhy feirniadol o gynghorwyr eraill sydd wedi gwneud cyfraniad enfawr dros flynyddoedd lawer – mae angen newid 'balans' Cyngor Conwy ac ethol llawer mwy o ferched a phobl ifanc a phobl o gefndiroedd cymdeithasol ac ethnig gwahanol i'r Cyngor. Dyma gyfle gwych felly i rhywun gael cynrychioli ardal fendigedig ar Gyngor Conwy.

Fedra'i ond diolch o galon i'r gymuned gyfan – yn ardaloedd Llangernyw, Pentrefoelas, Gwytherin a Phandy Tudur am eich cefnogaeth, eich cyfeillgarwch a'ch cynhesrwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Dwi'n gobeithio fy mod wedi helpu, cefnogi a gwneud rhwyfaint o wahaniaeth i fywydau trigolion yr ardal fendigedig yma, a byddaf yn parhau i geisio gwneud hynny tan fis Mai cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cynghorydd newydd.

Mae'n wir wedi bod yn fraint, yn anrhydedd, yn her – ac yn hwyl! Cofion cynnes – Garffild

## **10 BILIAU**

**10.1** Enlli: £127.84 cytunwyd i dalu.

**10.2** Dŵr Cymru: £15.12 am gyflenwad mynwent Llangernyw, cytunwyd i dalu. Bydd y tap yn cael ei droi i ffwrdd ddechrau mis Tachwedd tan fis Chwefror.

**10.3** Menter Bro Cernyw: £500 am gyfnod 2021/22 tuag at rhedeg y toiledau cyhoeddus. Cytunwyd i dalu.

**10.4** Kevin Roberts am y gwaith nodwyd yn 8.1 uchod, cytunwyd i dalu.

## **11 MATERION LLEOL**

**AV** angen tacluso a phaentio talcen yr arhosfan bws yn Llangernyw.

**MD** car yn cael ei adael ym maes parcio Glan Collen. AV yn codi fod y car dal i fod yno. Heddlu yn ymwybodol ei fod yno. GLL hefyd yn ymwybodol o'r mater, CR am ofyn iddo os oes diweddariad neu os all wneud ymholiadau pellach.

**DR** wedi bod mewn cyfarfod ynglyn â'r melinau gwynt efo Llyr Huws Griffiths ac eraill yn ddiweddar, adroddodd fod melinau gwynt yn debyg o fod yn llawer talach na'r peilonau sydd mewn lle ar hyn o bryd. Adrodd fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith ymchwil wrth eu desg ddynodi'r safle. Llyr Huws Griffiths am wneud mwy o ymholiadau.

Gofyn beth sydd wedi digwydd efo bocs ffôn Llangernyw. CR am gysylltu efo Sioned Green i weld beth yw'r diweddaraf ynglyn â hyn.

**GD** wedi codi llwybr Pen y Bryn yn 8.1 uchod, problem ffordd defnyddio Report It.

**REW** gofyn am bris i lanhau a phaentio ciosg ffôn Gwytherin gan fod y Cyngor wedi ei fabwsiadu. BT yn edrych ar ôl y peiriant ond ddim y bocs ei hun. Gofyn i Kevin Roberts os all ymgymryd a'r gwaith.

Adeilad yn cael ei godi ond ym mhlwyf Llansannan.

Gofyn beth yw'r sefyllfa o hysbysebu am gael Cynghorydd arall. CR wedi cael gohebiaeth gan Lucy Steel ac am fynd ymlaen efo'r cam nesaf.

CR yn gofyn os yw MD yn hapus i ymgymryd a'r swydd o is-gadeirydd. Ar hyn o bryd ddim yn teimlo y gall ymgymryd â'r swydd ar hyn o bryd.

**12 CYFARFOD NESAF**

24<sup>ain</sup> Tachwedd 2021 yng Nghanolfan Bro Cernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:30yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan